



Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Cynllun Treganna

**Ysgol Treganna
Sanatorium Road
Caerdydd
CF11 8DG**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

16 Hydref 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Menter Caerdydd wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i roi gofal i 55 o blant yng Nghynllun Treganna, sy'n gweithredu o ystafelloedd yn Ysgol Gymraeg Treganna yn Nhreganna, Caerdydd. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gofal i blant rhwng 4 ac 11 oed rhwng 8.30am a 5.30pm ar ddyddiau'r wythnos yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r sefydliad wedi penodi Unigolyn Cyfrifol i weithredu ar ei ran, ac mae dau Berson â Chyfrifoldeb ac sydd wedi'u cymhwyso'n ddigonol wedi cael eu henwebu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth eang o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda. Maent yn cael gofal cynnes a magwrus gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n ymatebol i'w hanghenion. Mae'r plant wedi ymsefydlu ac yn gartrefol o fewn y gwasanaeth ac yn datblygu cydberthnasau cefnogol da. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, mae digon o le i chwarae a dysgu ac mae'r safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r trefniadau arwain a rheoli yn effeithiol ac maent yn bodloni gofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae adnoddau newydd wedi cael eu prynu a darperir dewis ehangach o weithgareddau ar gyfer y plant. Mae'r systemau cyfathrebu â rhieni a staff hefyd wedi gwella.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Gwnaethom argymhellion arfer da a grynhoir ar ddiwedd yr adroddiad.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu sy'n heriol ac yn cefnogi eu datblygiad yn gyffredinol. Maent yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'u cyfoedion a'u gofalwyr, ac maent wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant siarad fel y mynnont ac maent yn cyfathrebu'n hyderus. Gallant ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, ac maent yn dewis eu hadnoddau o'u gwirfodd. Yn ystod ein hymweliadau arolygu, roedd y plant yn hapus i fynd at y staff i gael adnoddau ychwanegol, ac ymdriniwyd â'u ceisiadau yn brydlon. Gallai'r plant ddewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored a gwnaethom eu clywed yn dweud wrth y staff beth roeddent am ei wneud yn hyderus. Yn ystod amser byrbryd, roedd gan y plant yr hyder i ddweud a oeddent am gael mwy i'w fwyta neu yfed.

Gall y plant siarad yn hyderus. Mae hyn yn hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u hunanhyder.

1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Mae polisi ymgartrefu ar waith. Mae'r awyrgylch yn un prysur ac mae'r plant yn mwynhau treulio eu hamser yn chwarae gydag eraill. Gwelsom blant yn chwerthin ac yn rhedeg o gwmpas yr ardal awyr agored. Clywsom y staff yn cydnabod ymdrechion y plant ac yn canmol eu cyflawniadau. Siaradodd y staff yn barchus ac yn gwrtais â'r plant bob amser, ac roedd y plant yr un mor gwrtais i'r staff. Gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael eu cofleidio pan oeddent wedi blino, a gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant alw'r staff wrth eu henwau, a oedd yn dangos cyfeillgarwch.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae hyn yn hyrwyddo eu hyder.

1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth o oedran amrywiol ac maent yn ymddwyn yn briodol. Maent yn datblygu cydberthnasau da â'i gilydd ac yn ffurfio cyfeillgarwch cadarnhaol. Gwnaethom arsylwi ar grwpiau gwahanol o blant dros gyfnod yr arolygiad, a gwelsom fod rhyngweithio hyfryd rhwng y plant a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a gweithgareddau pâr yn hapus, er enghraifft, chwarae snwcer, adeiladu tyrau â blociau, adeiladu cuddfannau ag offer chwarae meddal. Gwnaethom arsylwi ar blant yn annog ei gilydd ac yn clapio tra oeddent yn cwblhau cwrs rhwystrau yn yr awyr agored. Roedd y plant iau yn ystyried y plant hŷn yn fodolau rôl, ac roedd plant o bob oedran yn gyfforddus yng nghwmni ei gilydd.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol da, ac yn dysgu sut y gall eu hymddygiad effeithio ar eraill.

1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau chwarae sydd ar gael iddynt sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ac yn cynnal eu diddordeb. Gwnaeth yr amrywiaeth o weithgareddau chwarae, a oedd yn cynnwys gweithgareddau tynnu llun, gweithdai drama a cherddoriaeth greadigol, chwarae yn yr awyr agored, arddangosiadau coginio, perfformiadau dawnys a chwarae rôl, lenwi amser y plant yn gynhyrchiol. Gwnaethom arsylwi ar grŵp o blant yn cwblhau cwrs rhwystrau yn yr awyr agored, ac roedd yn amlwg eu bod wedi mwynhau. Roedd y plant yn mwynhau'r rhyddid i symud rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored fel y mynnont. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol fod y rhieni wedi trefnu i'w plant ddod i'r clwb ar ddiwrnodau ychwanegol am eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau a'r teithiau gymaint.

Mae dewis da o gyfleoedd chwarae ar gael i'r plant sy'n heriol ac o ddiddordeb iddynt.

1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Roedd y chwarae wedi'i arwain ganddynt eu hunain yn bennaf ac yn ddewisol dirwysr, a oedd yn golygu bod y plant yn dewis gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau ac roeddent yn gwneud hynny heb fawr ddim cymorth gan y staff. Ar y cyfan, roedd y plant yn hyderus i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol a gwnaethant olchi eu dwylo cyn amser byrbryd. Yn ystod amser byrbryd, gwnaeth y staff helpu'r plant i fod yn annibynnol drwy eu hannog i roi menyn ar eu tost eu hunain a gwneud eu diodydd eu hunain.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth priodol yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r tîm o staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn effeithlon i gefnogi'r plant. Maent yn ymateb i anghenion y plant ac yn rheoli rhyngweithiadau yn gadarnhaol. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag anghenion iechyd a diogelwch y plant.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae mesurau priodol ar waith i sicrhau y caiff lles plant ei hyrwyddo. Mae'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig priodol ac maent yn deall eu rôl pe bai argyfwng yn codi. Mae polisi meddyginiaeth sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflenni meddyginiaeth a ddefnyddir gan y lleoliad yn cael eu llofnodi gan y rhieni cyn ac ar ôl rhoi meddyginiaeth yn unol â'r polisi. Mae polisi amddiffyn plant ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd y polisi yn cynnwys y ddyletswydd Atal, sef strategaeth y llywodraeth sy'n gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr i nodi plant a allai wynebu'r risg o gael eu radicaleiddio.

Mae bandiau arddwrn gwelededd uchel ar gael i'r plant eu gwisgo ar deithiau ac mae asesiadau risg ysgrifenedig ar waith. Mae dŵr yfed ar gael i'r plant drwy'r dydd a gallant helpu eu hunain.

Mae mesurau iechyd a diogelwch addas ar waith i gefnogi lles y plant.

2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Defnyddir ymarfer effeithiol a chyson gan staff i gefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant. Mae polisi rheoli ymddygiad sy'n amlinellu'r strategaethau a'r arferion sydd ar waith i gefnogi ymddygiad y plant. Mae polisi gwrth-fwlio hefyd. Gwnaethom arsylwi ar arferion gofal a nodwyd eu bod yn effeithiol a chyson. Ni welsom fawr ddim ymddygiad annymunol yn ystod yr arolygiad, ac ymatebodd y plant yn gadarnhaol i geisiadau cwrtais y staff pan oeddent wedi gorgynhyrfu.

Mae'r tîm o staff yn effeithiol wrth gefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant ac maent yn defnyddio strategaethau priodol i hyrwyddo llesiant y plant.

2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r ymarfer yn ymatebol, yn briodol ac mae'n cefnogi chwarae a dysgu'r plant yn dda. Gwelsom fod y cynllunio yn ddigon amrywiol a heriol i blant gyda gweithgareddau fel gweithdai drama, arddangosiadau coginio a gwersi cerddoriaeth i ennyn eu diddordeb. Roedd teithiau wythnosol i fannau megis Bae Caerdydd, y traeth, a Mountain View Ranch wedi'u trefnu er mwyn darparu amrywiaeth i'r plant yn ystod eu hamser yn y clwb. Roedd y staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod gweithgareddau pen

bwrdd, yn gwneud awgrymiadau ac yn gofyn cwestiynau agored iddynt, ond nid oeddent yn tarfu ar y plant a gwnaethant ganiatáu iddynt gyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Ni chaiff cofnodion asesu a datblygu eu cynnal am nad yw'r plant mewn ysgol llawn amser. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r '*Cynnig rhagweithiol*' o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r plant yn cael budd o dîm o staff sy'n cydweithio'n dda i ddiwallu anghenion y plant.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o neuadd fawr o fewn yr ysgol gynradd. Mae iard gaeedig yr ysgol ar gael i'r plant i chwarae yn yr awyr agored. Mae asesiadau risg ar waith i sicrhau diogelwch y plant.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r safle'n ddiogel ac mae mesurau diogelwch priodol ar waith. Mae mynediad i'r clwb drwy ddrws ffrynt wedi'i gloi drwy brif dderbynfa'r ysgol. Caiff amseroedd cyrraedd a gadael y plant a'r staff eu cofnodi. Mae pob aelod o staff yn gwisgo gwisg y clwb a bathodynau adnabod fel eu bod yn hawdd i'w hadnabod. Rhoddir sylw da i'r gwaith o gynnal lefelau goruchwyllo priodol y plant ac roedd y cofnodion yn dangos bod y gymhareb o staff i blant naill ai'n diwallu neu'n rhagori ar ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ym mhob sesiwn. Caiff damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi'n briodol, a rhoddir copi i'r rhieni.

Mae'r systemau sydd ar waith yn hyrwyddo diogelwch a lles y plant.

3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gofod sydd ar gael yn addas ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Defnyddir y neuadd ar gyfer amseroedd chwarae a bwyd. Mae'r toiledau yn hygyrch iawn o'r coridor sy'n agos at y neuadd, sy'n hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae cegin ar wahân ar gyfer paratoi byrbrydau. Yn ystod amser byrbryd, ni roddwyd platiau i'r plant i'w defnyddio i fwyta eu bwyd. Gwnaethom drafod hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol a gytunodd i newid yr arfer hwn. Mae pegiau cotiau lefel isel ar gael i'r plant er mwyn iddynt hongian eu heiddo. Y tu allan mae iard gaeedig fawr sy'n cael ei defnyddio'n ddyddiol ar gyfer chwarae corfforol. Caiff y rhan fwyaf o'r teganau a'r adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Caiff y dystysgrif atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrif cofrestru'r gwasanaeth eu harddangos yn y fynedfa.

Mae'r amgylchedd yn addas ac yn ddiogel ar gyfer gofal y plant.

3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ddewis o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da. Mae amrywiaeth addas o deganau a chyfarpar priodol i'r plant eu defnyddio. Roedd deunyddiau crefft, dillad chwarae rôl, cuddfannau, pêl-droed pen bwrdd, snwcer, posau a gemau yn yr ardal dan do. Y tu allan, roedd peli, sgwteri a chwrs rhwystrau ar gael i'r plant. Gall y plant ddewis deunyddiau addas ar gyfer eu gweithgareddau sy'n ysgogol ac yn caniatáu i'r plant fod yn ddychmygus, yn greadigol

a dilyn eu diddordebau. Sylwom fod y plant wedi defnyddio rhai deunyddiau ailgylchadwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Mae'r plant yn cael budd o ddewis da o adnoddau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

4. Arwain a Rheoli

Crynodeb

Caiff y gwasanaeth ei redeg a'i reoli yn effeithiol yn unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae cofnodion, polisïau a gweithdrefnau addas ar waith. Caiff ymarferwyr eu rheoli'n effeithiol. Mae gwaith hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer datblygu ac mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhedeg y gwasanaeth mewn ffordd effeithiol. Mae Datganiad o Diben sy'n egluro nodau ac amcanion y gwasanaethau yn ogystal â'r gweithgareddau a'r cyfleusterau a ddarperir. Mae ffeil polisi sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau. Fodd bynnag, nid oeddent yn ddyddiedig i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf. Edrychom ar sampl o gontractau'r plant a nodwyd eu bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Mae'r rhieni yn llofnodi slipiau caniatâd ar gyfer teithiau, cymorth cyntaf a ffotograffau.

Gall y rhieni fod yn dawel eu meddwl bod eu plant yn cael budd o wasanaeth sydd wedi'i drefnu'n dda.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae tystiolaeth o gynllunio ar gyfer gwella a phrosesau sicrhau ansawdd. Roedd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac adroddiad Ansawdd y Gofal wedi cael eu llunio a'u hanfon i AGC. Cesglir adborth gan y rhieni drwy Survey Monkey i gefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer gwella. Roedd polisi cwynion ar waith os oedd y rhieni neu'r plant yn dymuno codi problem. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym yr ymgynghorir a'r plant ynglŷn â phrynu adnoddau.

Mae'r arweinwyr yn cynnal gwaith gwerthuso a chynllunio ar gyfer y gwasanaeth.

4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Caiff y staff eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Roedd ystod dda o gofnodion dyddiol a gynhaliwyd megis cofrestrau a thafleuni presenoldeb staff i sicrhau bod cymarebau staff i blant yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion sy'n codi. Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau'r staff a nodwyd eu bod yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi. Fodd bynnag, rydym yn argymhell cofnodi manylion cyswllt brys ar gyfer y staff.

Mae'r rheolwyr yn darparu arweiniad a chymorth effeithiol i'r staff.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Ffurfiwyd cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'r sefydliad yn aelod o sefydliad ymbarél sy'n darparu cymorth os bydd angen. Mae'r rhieni yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth a'r gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael. Nodir anghenion a dewisiadau unigol y plant cyn iddynt ddechrau oherwydd caiff ffurflen gofrestru ei

chwblhau. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau sefydledig â'r gymuned gyda theithiau amrywiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal cydberthnasau gwerthfawr i gynyddu buddiannau'r gwasanaeth i'r plant i'r eithaf.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r Unigolyn Cyfrifol;

- diweddarau'r polisi Diogelu gyda'r ddyletswydd Atal;
- rhoi platiau i'r plant i'w defnyddio i fwyta byrbrydau;
- diwygio'r ffurflen meddyginiaeth i gael llofnod y rhieni cyn ac ar ôl rhoi meddyginiaeth, yn unol â pholisi meddyginiaeth y lleoliad;
- diweddarau'r Polisiâu a'r Gweithdrefnau gyda dyddiad yr adolygiad diwethaf;

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau;

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth, yn ddirybudd;
- gwnaethom arsylwi ar arferion gofal;
- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r ardaloedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth;
- gwnaethom ystyried y wybodaeth a oedd ar gael i AGC, gan gynnwys Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS);
- gwnaethom siarad â'r staff;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth. Gwnaethom ganolbwyntio ar Datganiad o Ddiben, ffeiliau'r staff, y Polisi Meddyginiaeth a Chontractau'r Plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Unigolyn Cyfrifol	Leah Dafydd
Person â chyfrifoldeb	Michaela Crocker Manon Paschalis
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	55
Ystod oedran y plant	4 i 11 oed
Oriau agor	8.30am – 5.30pm ar ddyddiau'r wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	28 Gorffennaf 2015
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	21 Awst 2018
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Gwybodaeth Ychwanegol: Dim	